| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **CYNGOR** |
| **Dyddiad:** | **3 Mawrth 2022** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas** | **Mabwysiadu Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2022 / 23** |
| **Awdur:** | **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr** |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |

## CEFNDIR

1. Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

2. Wrth fabwysiadu'r polisi ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

3. Yn sgil hynny, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2022 / 23 yn ei gyfarfod ar y 7fed o Chwefror eleni, a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 3ydd o Fawrth.

## PRIF SWYDDOGION

4. Yn nghyfarfod cyfatebol y Pwyllgor y flwyddyn diwethaf, bu i'r Prif Weithredwr ar y pryd gyflwyno casgliadau ar adolygiad o gyflogau'r Prif Swyddogion. Daeth y Pwyllgor i gasgliad cyffredinol fod angen adolygu cyflogau rhai swyddi Prif Swyddogion, ond na ddylid gwneud hynny hyd nes bod penderfyniad wedi ei gymryd ar lefel cenedlaethol ynghylch a fyddai staff awdurdodau lleol yn derbyn cynnydd yn y cyflog ai peidio. Er nad oes cytundeb yn ei le eto ar gyfer y flwyddyn 2021/22 ar gynnydd mewn cyflogau staff llywodraeth leol, mae yna dderbyniad cyffredinol y bydd yna gytundeb maes o law. O ddisgwyl hynny felly, fe fyddaf pan ddaw cadarnhad o'r penderfyniad hwnnw yn mynd ati i adolygu cyflogau swyddi unigol a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar y pwnc. Mae'n debygol y byddaf mewn sefyllfa i gyflwyno'r adroddiad yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

5. Yn gwbl ar wahân i'r adolygiad uchod, dylid cofio fod gan bob Prif Swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu yn genedlaethol gan y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan **'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol'**. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Rydym dros y dyddiau diwethaf wedi derbyn cadarnhad fod yr undebau a'r cyflogwr ar lefel Prydain wedi cytuno ar gynnydd o 1.50% ar gyfer prif swyddogion am y flwyddyn 2021/22. Bydd angen iddynt symud ymlaen yn awr i gynnal trafodaethau ynghylch unrhyw gynnydd posib ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

6. Oni bai am y penderfyniad cytundebol y cyfeirir ato ym mharagraff 5 uchod felly, nid oes unrhyw newid pellach i'r polisi tâl o'r hyn a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer 2021/22.

## SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

7. Mae gan staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel Prif Swyddogion yr hawl cytundebol i godiadau cyflog sydd yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Fel y soniais ym mharagraff 4, nid oes cytundeb eto ar gynnydd yn y cyflog ar gyfer 2021/22, a bydd angen i'r undebau a'r cyflogwyr drafod os oes unrhyw gynnydd ar gyfer 2022/23 hefyd. Pan ddaw cyhoeddiad ar gynnydd yn y cyflogau bydd y Cyngor yn gweithredu ar unrhyw benderfyniad cyn gynted â phosib.

8. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i ariannu cynnydd yn nghyflogau staff sydd yn gweithio yn y maes gofal i lefel y Cyflog Byw. Mae lefel y Cyflog Byw yn cael ei bennu yn flynyddol gan y Comisiwn Cyflog Byw, yn annibynnol o'r hyn a elwir yn Gyflog Byw Cenedlaethol a ddyfernir gan Lywodraeth Prydain. Ar hyn o bryd mae lefel y Cyflog Byw yn £9.90. Mae'r wybodaeth ynghylch sut y bydd angen i gynghorau gyflwyno'r cynllun o fis Ebrill 2022 ymlaen i ddod eto gan Lywodraeth Cymru, ond yma yn Ngwynedd y disgwyliad y bydd ein gofalwyr, o gredu y bydd yna gynnydd yn y cyflogau ar gyfer 2021/22 a hefyd 2022/23 yn derbyn cyflog yr awr a fydd uwchlaw lefel y Cyflog Byw.

## ARGYMHELLIAD

9. Bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Polisi Tâl ar gyfer 2022 / 23.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i fabwysiadu Polisi Tâl blynyddol sydd yn cyfarch y gofynion yn y Ddeddf. Penderfyniad y Cyngor Llawn yw hyn. Rwy'n fodlon fod y Polisi a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cyfarch y gofynion statudol.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae adnoddau ar gyfer ariannu ymhlygiadau'r Polisi Tâl yma wedi'u darparu yn y Gyllideb ar gyfer 2022/23, sy'n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.